Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol y Cribarth
Ffordd yr Ysgol
Aber-craf
SA9 1XD

07/10/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Medi 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol y Cribarth yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

**Ffocws yr ymweliad**

**Miniogi prosesau gwella'r ysgol a gweithredu'n gyflym ar feysydd i'w datblygu.**

- Ceir diwylliant cynyddol fyfyriol yn yr ysgol. Mae'r pennaeth wedi sefydlu ymagwedd gynhwysol at hunanwerthuso sy'n cynnwys arweinwyr a staff. Mae staff yn deall eu rôl bwysig mewn gwerthuso effeithiolrwydd yr ysgol. Maent yn gwerthfawrogi'r adborth, y cymorth a'r arweiniad a gânt ac yn ymatebol iddo.
- Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau monitro a phrosesau gwella effeithiol. Maent yn monitro addysgu a dysgu yn rheolaidd, ac yn yr achosion cryfaf, maent yn dechrau gwerthuso effeithiolrwydd yr addysgu a'i effaith ar gynnydd disgyblion.
- Mae gweithdrefnau monitro yn briodol a chynaliadwy ac yn rhoi ystyriaeth dda i faich gwaith staff. Mae llawer o randdeiliaid, gan gynnwys llywodraethwyr yr ysgol, yn rhan annatod o wella'r ysgol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gynnal ystod o weithgareddau monitro. O ganlyniad, maent yn dwyn arweinwyr i gyfrif am y ddarpariaeth a'i heffaith ar ddysgu a lles disgyblion.
- Mae arweinwyr yn ystyried ystod addas o dystiolaeth i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. O ganlyniad, maent yn cynllunio'n ystyriol i wella dysgu a chynnydd disgyblion mewn meysydd pwysig fel rhifedd. Mae'r camau gweithredu'n

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

synhwyrol, ac mae gwerthusiadau parhaus arweinwyr yn dangos cynnydd yn erbyn llawer o'r camau gweithredu dros gyfnod.
- O ganlyniad i dystiolaeth o brosesau monitro, mae arweinwyr yn teilwra dysgu proffesiynol yn ystyriol i ddiwallu anghenion unigol a rhai ysgol gyfan. Gyda chymorth arweinwyr, mae staff yn datblygu ymagweddau defnyddiol at holi, adborth a her. Mae'r rhain yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion.

**Sicrhau bod pob un o'r athrawon yn darparu adborth defnyddiol ac amserol i gynorthwyo disgyblion i wella'u dysgu.**

- Mae arweinwyr wedi trefnu cyfleoedd dysgu proffesiynol i rannu a thrafod ymagweddau a dulliau amrywiol o ran adborth. Mae staff wedi treialu dulliau o roi adborth amserol i ddisgyblion ac wedi cytuno ar ymagwedd gyffredin.
- Gyda'i gilydd, bu staff yn diweddaru polisi adborth a dysgu'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r fersiwn ddiweddaraf yn canolbwyntio'n ddigon clir ar y dulliau adborth cytûn a ddefnyddir yn ymarferol ar hyn o bryd.
- Mae staff yn datblygu eu hyder i fonitro prosesau asesu ar gyfer dysgu'r ysgol yn ystod gweithgareddau craffu ar lyfrau bob tymor. Maent wedi sefydlu diwylliant agored a gonest lle maent yn teimlo'n gyfforddus i fynegi eu barn a dysgu oddi wrth ei gilydd. O ganlyniad, maent wedi datblygu ymagwedd gyson at ddarparu adborth amserol sy'n ddatblygiadol briodol ac yn gynyddol effeithiol.
- Mae staff yn defnyddio cyfuniad o feini prawf llwyddiant ac adborth llafar sy'n rhoi arweiniad yn y fan a'r lle i ddisgyblion ar sut gallant wella'u gwaith. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safon gwaith disgyblion, yn enwedig mewn ieithoedd ac yn y celfyddydau creadigol.
- Mae disgyblion yn dechrau datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd adborth a sut gellir ei ddefnyddio i wella ansawdd a safon eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i arweiniad yn y fan a'r lle gan staff a chyfoedion ar sut gallant wella'u gwaith.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/ysgol-y-cribarth-cy/

Yn gywir



**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol